

MANYLEB ASEINIAD AC ADBORTH

CANOLFAN ADDYSG ATHRAWON DE-ORLLEWIN CYMRU

*Dylai'r adrannau sydd â * gael eu cwblhau gan yr arweinydd modwl*

Enw'r Myfyriwr:	Dafydd Rhys Phillips	Rhif P y myfyriwr:	1100380
Rhaglen:*	TAR Cynradd		
Modwl:*	Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion	Lefel y Modwl (6 neu 7):*	7
Cod y modwl:*	M7X02151	Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):*	70%
Arweinydd modwl:*	Helen Lewis / Gail Parker / Sarah Elsey		
Teitl yr Aseiniad:	Aseiniad ysgrifenedig o 4,500 o eiriau	Rhif yr Aseiniad (x o x):*	1/2
Dyddiad cychwyn:*	5/3/18	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno:*	30.5.18
Dyddiad dychwelyd y marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:*	27.6.18		

Cyfeirnod:	Ym mhrif ran eich gwaith, mae'n rhaid i chi gydnabod awduron y mae eu hymchwil yn sail i'ch gwaith. Dylech atodi rhestr gyfeirnod i'ch gwaith sy'n dangos y llyfrau, erthyglau ayyb, rydych chi wedi'u darllen neu eu dyfynnu er mwyn cwblhau'r aseiniad hwn (e.e. ar gyfer llyfrau: cyfenw'r awdur a'i lythrennau cyntaf, blwyddyn cyhoeddi, <u>teitl y llyfr</u> , argraffiad, cyhoeddwr: man cyhoeddi).		
Cyflwyno:	Rhaid cyflwyno pob aseiniad gan ddefnyddio Turnitin, heblaw bod y darlithydd yn dweud yn wahanol. Sylwer: y fersiwn Turnitin yw'r prif gyflwyniad ac mae'n gweithredu fel derbynneb i'r myfyriwr. Bydd cyflwyno'r fersiwn electronig o'r aseiniad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc gosb hwyr Cosbau ar gyfer cyflwyniadau hwyr: Hyd at un wythnos yn hwyr, uchafswm o radd D. Mwy nag wythnos yn hwyr, Cyfeirio. Dim ond y Panel Amgylchiadau Esgusodol all roi estyniad.	Dyddiad:	30.5.18
Dylai'r arweinydd modwl roi tic yma i ddangos a oes rhaid cyflwyno copi caled o'r aseiniad neu beidio.			IE
			NA ☒

**‘Cynorthwyo cynnydd disgyblion: dadansoddiad manwl o ddatblygiad
cyfannol un plentyn gan gyfiawnhau’r camau dysgu nesaf.’**

4262/4500

Rhagarweiniad

Yn yr aseiniad yma byddaf yn canolbwyntio ar ddatblygiad un disgybl ffocws gan ystyried gwahanol feysydd o’r cwricwlwm. Rwyf wedi casglu gwybodaeth gan ddefnyddio dulliau gwahanol am allu a gwendidau’r disgybl. Ar ôl dadansoddi’n fanwl y disgybl ar ran ei: waith, gallu i gyfathrebu ac iechyd a lles, roedd meysydd gwahanol wedi eu hamlygu ac felly penderfynais gan ddefnyddio ymchwil lenyddol berthnasol i fynd ati i ddatblygu a gwella’r meysydd hyn. Rwyf wedi defnyddio ymchwil perthnasol i amlygu gwahanol strategaethau o sut i gyrraedd targedau cyraeddadwy. Defnyddiwyd a chasglwyd data a gweithgareddau sydd wedi cyflawni gan y disgybl i ddangos esiamplau o gynnydd yn gwahanol bynciau o ar draws y cwricwlwm.

Trwy gydol yr aseiniad bydd canllawiau BERA (2011) yn cael eu dilyn i sicrhau diogelwch a chyfrinachedd y cyfranwyr. BERA (British Education Research Association) yw’r gymdeithas sydd wedi creu sawl polisi. Mae’r polisïau yn rhoi cymorth i unigolion sy’n cynnal prosiectau ac ymchwiliadau ynglŷn â chanllawiau moesegol. Mae preifatrwydd a chyfrinachedd yn cael eu hystyried yn bwynt hollol bwysig. Ni fyddaf yn defnyddio enwau trwy gydol yr aseiniad. Ni fyddaf yn datgelu enw’r disgybl, athrawes neu’r ysgol. Felly byddaf yn cyfeirio at y cyfranogwyr fel ‘Disgybl A’, ‘Athrawes’ ac ‘Ysgol A’. Gwelir (atodiad 1) ar gyfer caniatâd am ddefnyddio’r disgybl ffocws gan athrawes y dosbarth profiad addysgu. Amlygir bod y dewis gan yr athrawes neu’r disgybl i dynnu’n ôl o’r ymchwil heb unrhyw ôl-ffeithiau. Rhaid hefyd rhaid ystyried gweddill disgyblion y dosbarth gan sicrhau eu bod yn ddiogel trwy gydol yr ymchwil heb gael effaith negyddol ar eu hiechyd corfforol, meddyliol neu gymdeithasol.

Mae ‘Disgybl A’ yn mynychu ysgol yn ardal Gorllewin Abertawe mewn tref fechan. Mae tua 250 o ddisgyblion wedi cofrestru yn yr ysgol. Mae’r disgybl yn ddosbarth blwyddyn 3 ac felly, yn 7/8 blwydd oed. Mae’n rhan o ddosbarth efo 30 o ddisgyblion. Dawiff tua 38% o ddisgyblion o gartrefi ble siaradir Cymraeg. Mae tua 3% o ddisgyblion yn cymwys i dderbyn prydiau ysgol am ddim. Ar hyn o bryd mae’n ysgol arloesol ar gyfer creu’r cwricwlwm newydd yn cyd-weithio efo Llywodraeth Cymru.

Casglu data

Yn yr adran yma byddaf yn sôn a thrafod y manteision ac anfanteision o'r dulliau defnyddiais i gasglu data am y disgybl ffocws.

Wrth gasglu gwybodaeth ynglŷn â disgybl ffocws defnyddiwyd y dull mosaig, defnyddiwyd hwn oherwydd roedd yn defnyddio gwahanol ddulliau am gasglu darlun cyflawn o gynnydd neu lwyfandir yn ei dealltwriaeth o wybodaeth neu allu ei sgiliau. Soniwyd Clark a Moss (2001) bod dull mosaig yn gasgliad o ddulliau i gasglu data ac adfyfrio ar farn a phrofiadau o blant ifanc. Maent yn ddull defnyddiol ac yn fuddiol am greu llun cyflawn o ddisgybl. Soniwyd Cowie et al (2014) bod defnydd o ddull mosaig yn galluogi ymchwilyr i ddefnyddio niferoedd o wahanol ddulliau addas ar gyfer casglu gwybodaeth ac i ddehongli gwybodaeth. Gwelir cysylltiad clir rhwng y dull mosaig a damcaniaeth Piaget. Arsylwyd Piaget ar ddisgyblion wrth iddynt wneud gweithgareddau a soniwyd eu bod yn dysgu wrth wneud a rhyngweithio efo'u hamgylchedd felly, yn dysgu gorau wrth wneud gweithgareddau ymarferol. Gwelwyd hyn yn Siencyn (2008) ble nodwyd bod disgyblion yn dysgu orau wrth iddynt ymglymu yn weithgaredd ymarferol.

Ond, ar y llaw arall dywedyd Cowie et al (2014) bod y proses o ddehongli data yn chymryd llawer o amser a hefyd yn proses chymhleth gan ddefnyddio gwahanol dulliau. Ond, trwy defnyddio'r dull yma gwelwyd bod yn anodd bron amhosib i wneud sylwadau cyffredinol oherwydd mae gwybodaeth yn cael eu casglu yn penodedig am un disgybl yn unig.

I gasglu data a gwybodaeth dilys a dibenadwy ac sicrhau lles, roedd rhaid i mi ystyried datganiad Cremin (2007, p. 149) fy mhod yn gwneud yn sicr nad oeddwn yn amlygu gwendidau y disgybl ac yn cael effaith negyddol arnynt. I gyd-fynd efo hyn fy mhod yn pwysleisio cryfderau y disgybl i geisio codi hunanhyder ac hunan-barch. Nad oeddwn i'r ymchwil yma cael effaith negyddol ar y disgybl yn unrhyw ffordd niweidiol.

Cynhaliwyd arsylwad o'r disgybl yn niferoedd o wersi ar brydiau gwahanol i geisio llunio llun cyflawn o'r disgybl. Yn ystod y arsylwi roeddwn yn arsylwi ar yr hyn yr oedd yn ei wneud wrth gyflawni gweithgaredd i weld os yr oedd yn gweithio yn annibynnol neu yn cydweithio mewn grwp. Roeddwn hefyd a ddiddordeb yn y dewisiadau yr oedd yn ei wneud a sut oedd yn cyd-weithio efo cyd-ddisgyblion. (APADGOS, 2008). I ehangu ar arsylwi yn y dosbarth, roeddwn hefyd yn arsylwi y disgybl ar y buarth chwarae i'w arsylwi yn amgylchedd naturiol wrth chwarae a thrafod efo ffrindiau.

Darganfuwyd Ridgers et al (2011) bod amser chwarae yn cyfle i ddisgyblion chwarae efo eraill yn ffurf anffurfiol i ddatblygu ymddygiad chwarae mewn amgylchedd distrwythuredig. Gwelwyd bod y digybl yn fwynhau gemau pêl neu gemau buarth cystadleuol sy'n stereoteipio o'i ryw. Nodwyd Ridgers et al (2011) eto bod bechgyn yn treulio ei hamser chwarae yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol dwys.

Wrth gynllunio gwersi roeddwn yn penodi grwp roeddwn am weithio efo i drafod y broses a sicrhau dealltwriaeth. Roedd y dull yma o gasglu data yn defnyddiol gan fod trafodaeth defnyddiol yn cael ei gynnal gan ofyn cwestiynau agored a chaeedig i herio disgyblion gwahanol gan gynnwys y disgybl ffocws. Nad oedd y disgybl ffocws yn y grwp ffocws ar bob adeg i roi cyfle i wahanol disgyblion gweithio efo athro. Roeddwn wedi arsylwi ar y disgybl ffocws wrth iddo cyflawni gweithgareddau gwahanol ac yn defnyddio sgiliau ieithyddol fel cyfathrebu neu trafod syniadau efo cyd-disgyblion. Roedd yn anodd arsylwi y disgybl tra yn addysgu dosbarth o ddisgyblion felly, mae'n posib collais gwybodaeth defnyddiol gan geisio sicrhau fy mhod yn gymorth i bob disgybl yn y dosbarth ac addysgu gwybodaeth a sgiliau newydd. Defnyddiais amser egwyl fel amser defnyddiol i arsylwi'r disgybl yn amgylchedd gwahanol ble mae'r disgybl yn hyderus wrth chwarae pêl-droed efo'i ffrindiau. Gwelais hyn yn defnyddiol gan geisio ychwanegu i'r gwybodaeth sy'n cael eu casglu tu fewn muriau'r ysgol.

Yn ogystal, roedd sgwrs a thrafodaeth efo athrawes y dosbarth yn darparu gwybodaeth defnyddiol o ran lefelu y disgybl gan ystyried a ddefnyddio y dogfennau cenedlaethol a rhaglen tracio Incerts. Gwelwyd hyn yn proses defnyddiol o ran gwella dealltwriaeth ac o ran casglu gwybodaeth a ddata am y disgybl. Roedd cyfle i drafod geirfa perthnasol wrth roi ac esbonio dewis lefel penodedig i'r disgybl. Penderfynwyd bod y disgybl yn lefel tri ar draws adrannau gwahanol iaith fel: llafaredd, darllen ac ysgrifennu.


Teilsen arall o'r mosaic oedd darn o waith ysgrifenedig ar genre bywgraffiad am fabolgampwr o'r ardal lleol. Penderfynais edrych yn fanwl ar hyn gan roi'r dewis i ddisgyblion am pwy oeddent am ysgrifennu bywgraffiad o fewn thema 'Fi, ti a Chymru'. Gwnaethwyd hyn i ddefnyddio lais y disgybl a sbarduno'r disgyblion gan fod yr unigolyn o ddiddordeb iddynt. Dwedwyd Nottingham (2013) gan ddefnyddio llais y disgybl roedd yr awydd i gyflawni gweithgareddau yn datblygu yn syfrdanol. Gwelwyd hyn oherwydd roeddent yn rhan o'r cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau am ddysgu

eu hun. Gwelir yn (**atodiad 2 - Fi, ti a Chymru**) bod y disgybl wedi nodi ei fod am ddysgu fwy am enwogion Cymru yn enwedig enwogion chwaraeon. Roedd hefyd yn cyfle i ehangu eu gwybodaeth am eu hardal lleol.

Dadansoddi'r dysgwr

Gan ddarllen a dehongli'r model ASG – Agweddau, Sgiliau a Gwybodaeth, es i ati i ddadansoddi'r disgybl ffocws gan ystyried elfennau o'r model. Roeddwn am ganolbwyntio ar bethau mae'r disgybl yn hoffi a chasáu felly eu heffaith ar gymhelliant. Sgiliau sy'n gryf neu sgiliau sydd angen datblygu gan y disgybl. Yn olaf, y wybodaeth ieithyddol neu fathemategol sydd angen canolbwyntio arnynt i gynllunio gweithgareddau i symud y disgybl ymlaen yn ei waith.

Y Model ASG – Nottingham (2013)



O arsylwi a chynnal trafodaeth efo'r disgybl roedd yn glir i weld roedd yr eisiau ac yr awydd gan y disgybl i wella ei hun gan ystyried ei waith ysgol. Wrth rôl adborth ar lafar i'r disgybl, roedd yn meddwl yn fanwl am syniadau am sut i wella gwaith ei hun. Roedd yn cymryd rôl annibynnol i wella ei allu academiaidd ac yn barod i ystyried adborth athrawon fel adnodd o gymorth. Wrth drafod gweithgareddau ac atebion efo'r disgybl daeth yn amlwg ei fod yn gweld yn haws rhoi ei hatebion ar lafar nag cofnodi ei hatebion yn ysgrifenedig gan fod ehangder ei eirfa Cymraeg ac esboniad wrth siarad yn haws iddo. Rhaid sicrhau bod cyfarwyddiadau neu wybodaeth yn glir i sicrhau ei fod yn gallu ysgrifennu yn gywir ac effeithiol.

Gan edrych yn fanwl ar fywgraffiad y disgybl am Brett Johns (**atodiad 3 - bywgraffiad**) gwelir bod y disgybl wedi cyflawni bywgraffiad o safon dderbyniadwy am ddisgybl sydd wedi ei osod o fewn lefel tri'r cwricwlwm cenedlaethol. Wrth bennu meini prawf

llwyddiant gwelir bod y disgybl wedi cyrraedd nod y wers. Defnyddiwn ddull o hunanasesu i gael y disgybl i adfyfrio ar waith ei hun ac i weld ei hun ble a beth sydd angen datblygu arnaf. Wrth ddarllen y bywgraffiad roedd yn glir i weld ei fod wedi cynnwys ffeithiau defnyddiol am yr unigolion ac felly lliwio stori am fywyd i'r darllenwr. Ceisiodd y disgybl ffocws amrywio dechreuadau ei frawddegau. Trwy ddefnyddio'r daflen cymorth gwelir yn **(Atodiad 4 - taflen cymorth)** paratowyd iddo gallai wedi newid 'mae' ac felly gwella ei waith ysgrifennu. Rwyf hefyd wedi ceisio ehangu geirfa a'i gronfa wybodaeth gan ddarparu'r daflen cymorth am ansoddeiriau, idiomaau ac elfennau eraill o'r iaith Cymraeg. Ar ôl trafodaeth ar lafar am ei waith oedd nol i ddefnyddio ansoddair ac idiom i ddisgrifio cymeriad Brett Johns. Yn anffodus, oherwydd baich amser nad oedd wedi cael amser i amlygu'r idiom ac ansoddair defnyddiodd gan ei uwcholeuo. Defnyddiodd y disgybl atalnod llawn ar ddiwedd pob brawddeg, fel ei hathro gallaf amlygu defnydd o ebychnod iddo amrywio atalnodi ar ddiwedd brawddegau. Roeddwn hefyd wedi gosod targed o dreiglo'n feddal ar ôl arddodiaid gwnaethom yn wers flaenorol. Hyd yn oed mae'r disgybl wedi gwneud cam wrth ysgrifennu'r frawddeg mae wedi ceisio treiglo'n feddal ar ôl arddodiad 'i' a threiglo 'geni' i 'eni'. Mae hyn yn dangos ei fod wedi cofio gwybodaeth o wers flaenorol ac yn dechrau ei ddefnyddio yn waith ysgrifenedig. Mae'n adnabod pryd a ble i ddechrau paragraff newydd wrth ysgrifennu unrhyw fath o gyfryngau.

Wrth gymryd rhan yn weithgareddau grŵp roedd yn i weld yn siarad yn bwrpasol ac yn cyfrannu yn aml. Wrth arsylwi'r disgybl roeddwn allu arsylwi ei fod yn mwynhau gwneud gweithgareddau sydd angen agwedd o drafod a chyd-weithio efo ffrindiau. Roedd hyn yn wir i ddweud am weithgareddau cinesthetig ble roedd y disgyblion yn gwneud tasg ymarferol yn didoli siapiau 2D neu 3D. Roedd y disgyblion i gyd ar y cyfan i weld yn mwynhau didoli siapiau gan symud a gosod y gwrthrych i mewn i'r golofn a rhes gywir ar ddiagram Carroll. Roedd gweithgareddau ymarferol yn cael effaith cadarnhaol ar allu'r disgybl i ganolbwyntio gan fod y disgybl yn gwneud, yn trafod ac yn mwynhau'r gweithgaredd. Roedd Abrahams a Millar (2008) wedi datgan bod disgyblion yn gweld gwaith ymarferol yn eithaf defnyddiol ac yn fwynhau i gymharu efo gweithgareddau dysgu ac addysgu. Roedd hyn i weld yn glirach yn gwersi Mathemateg i gymharu efo gwersi iaith ble maent yn anodd i gynllunio gwersi ymarferol. Hefyd, nad oedd y disgybl yn gweld y cysylltiad rhwng y gweithgareddau ymarferol a dysgu sut i ddefnyddio'r gwybodaeth neu sgil newydd yn ei waith. Roedd

gwell efo'r disgybl cael y ffeithiau, ysgrifennu yn ei lyfr ac eu dysgu yn ffordd traddodiadol.

Mae ei allu yn Fathemateg yn weddol gryf. Felly, mae wedi ei osod eto o fewn lefel tri fel lefel o'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae'r disgybl yn nodi Mathemateg fel un o'i hoff bynciau, ochr yn ochr efo ymarfer corff. Wrth drafod efo'r disgybl, nododd ei fod yn mwynhau delio efo rhifau ac yn gweld yn rhwyddach nag gwersi Cymraeg. Roedd ei gryfder i weld gan ei fod yn defnyddio sgiliau gwahanol fel: adio, tynnu, lluosu a didoli yn gywir heb lawer o wallau yn aml. Maent yn alw tablau 2,3,4,5 a 10 yn aml am gymorth efo'i waith. Un maes sydd angen datblygu yw defnyddio amrywiaeth o ddulliau pen i ddatrys symiau.

Amlygwyd bod angen defnyddio ac ymarfer sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion y dosbarth gan gynnwys y disgybl ffocws. Cynlluniais cyfleodd i ddisgyblion defnyddio teclynnau technoleg yn ystod gwersi iddynt datblygu eu gallu a mireinio eu sgiliau. Roedd rhaid cynllunio cyfleoedd teg i grwpiau cyd-weithio i ddefnyddio'r teclynnau o fewn y wers oherwydd diffyg nifer o declynnau. Arsylwais fod disgyblion yn cael trafferthion mewngofnodi ac arbed gwaith, hefyd eu bod yn ansicr o derminoleg technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r ardal yma o'r cwricwlwm yn hollol bwysig gan baratoi disgyblion am y dyfodol a'r cwricwlwm newydd sydd ar y gorwel.

Mae'r disgybl yn awyddus i ddysgu a datblygu sgiliau newydd. Ond, mae hyn yn cael ei amharu gan golli canolbwyntied yn gyflym ac felly, mae ei hyder yn cael ei daro os nad ydyw yn deall y wybodaeth tro cyntaf. Mae hyn hefyd yn cael effaith negyddol ar gymhelliant y disgybl gan ei fod yn weld tasg yn anodd ac yn dechrau dad-ddweud o'r gweithgaredd. Dywedwyd Bunker (1991) bod disgyblion yn datblygu hunanhyder a hunan-barch trwy brofiadau llwyddiannus. Felly, mae angen darparu cymorth i geisio sicrhau llwyddiant gan ddefnyddio cefnogaeth aelod o staff am gysur ac i gymhelli i ddisgyblion i gadw ar dasg ac i gyflawni'r dasg. Gan ddefnyddio scaffaldi gwahanol fel: cymorth o gynorthwyydd neu athro, symalhau y camau i gyflawni yn ystod y wers a defnydd o feini prawf llwyddiant efo camau i ddilyn i gyflawni nod y wers yn llwyddiannus gallaf sicrhau llwyddiant yn brofiadau yn yr ysgol.

Gan gynnal arsylwadau ar y buarth chwarae a thrafodaethau efo'r disgybl daeth yn amlwg bod diddordeb efo yn bêl-droed. Byddaf yn ceisio defnyddio hyn fel sbardun i gymhelli'r disgybl. Mae'n gystadleuol ar y buarth chwarae ac yn aelod o dîm pêl-droed y dre. Rwyf hefyd wedi arsylwi bod y disgybl yn gystadleuol o fewn muriau'r dosbarth

wrth osod gêm i sicrhau ymddygiad a gweithgaredd datrys y cod. Mae effaith delfrydau ymddwyn yn glir i weld ar ei ymddygiad wrth chwarae pêl-droed. Wrth iddo gopïo dathliadau chwaraewyr gwahanol. Dyma ble gwelwyd y disgybl yn troi i'r Saesneg yn aml wrth drafod digwyddiadau yn ystod y gêm ond, hyd yn oed ei fod yn siarad Saesneg mae'n gallu cyfathrebu yn glir yn y ddwy iaith. Wrth drafod delfrydau ymddwyn nodwyd Lockwood et al (2002) bod cymhelliant academaidd cyfranogwyr o'u hymchwiliad wedi cynyddu gan ddelfrydau ymddwyn efo targedau clir a gyraeddadwy.

Byddaf yn ceisio cynllunio defnyddio digwyddiadau pwysig fel Cwpan Pêl-droed y Byd i gynllunio gwersi gan sylwi bod y digwyddiad o ddiddordeb i'r disgybl ac i aelodau eraill y disgybl. Gobeithiaf weld diddordeb, fwynhad ac ymglymiad yn ystod y gwersi ac felly yn cael effaith cadarnhaol ar eu dysgu a dealltwriaeth. O brofiad gwelais fod defnydd o ddigwyddiadau pwysig fel bachyn gwers yn cael effaith cadarnhaol ar fwynhad ac ymglymiad y disgyblion.

Camau Nesaf

Wrth osod targedau rhaid ystyried a sicrhau eu bod yn cydymffurfio efo targedau 'S.M.A.R.T.' sef nodwyd gan Doran (1981) sef acronym am sbesiffig, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac wedi amseru. Os nad ydynt yn gallu cael eu penodi i'r adrannau gwahanol o dargedau 'S.M.A.R.T.' gallent gael effaith negyddol ar hunanhyder a chymhelliant y disgybl gan, nad yw'r targed yn gyraeddadwy ac yn amhosib i'r disgybl gweithio tuag ato.

Gwelir bod angen datblygu meysydd gwahanol o ar draws y cwricwlwm efo ffocws mwyaf ar lythrennedd a rhifedd. Mae'r pwyslais fwyaf ar y meysydd yma oherwydd dyma'r meysydd sy'n cael eu defnyddio yn trawscwricwlaidd. Felly, mae angen sicrhau eu cywirdeb i gyflawni gweithgareddau eraill yn gywir. Os na, byddent yn cael effaith negyddol ar feysydd dysgu eraill y disgybl.

Gan ystyried camau nesaf maes iaith y disgybl ffocws, amlygodd yr ardaloedd isod i ffocysu arnynt i ddatblygu gallu'r disgybl:

Byddaf am i'r disgybl ceisio amrywio ei hatalnodi gan ddechrau defnyddio ebychnod ar ddiwedd brawddegau os yw'n addas. Ar hyn o bryd mae'r disgybl yn defnyddio atalnod llawn ar ddiwedd brawddegau yn gywir. Felly, y cam nesaf yw defnyddio gwahanol fathau o atalnodi. Byddaf rhaid sicrhau bod y disgybl yn deall pam a phryd

i ddefnyddio ebychnod yn gywir. Gall hyn fod yn weithgaredd ar gyfer y dosbarth cyfan i sicrhau bod pob disgybl yn cael y wybodaeth ac yn dysgu sut i ysgrifennu'n gywir.

Yr ail faes byddaf am i'r disgybl datblygu yw ei fanc o eirfa ac i sillafu pob gair aml ei ddefnydd yn gywir gan ddefnyddio cymorth adnoddau, i amlygu geirfa yn ystod storiâu, ac i fodelu geirfa yn ystod cyflwyniadau a thrafodaethau. Gan ddefnyddio technegau a strategaethau fel torri sain y gair i lawr byddaf yn gobeithio gweld gwelliant yn ei sillafu gan fod geiriau Cymraeg yn eithaf seicolegol. Gan ystyried cynllunio gweithgareddau byddaf yn paratoi adnoddau o gymorth gan ystyried gallu'r disgyblion a'r disgybl ffocws. Enghraifft o hyn yw mat geiriau i hybu disgyblion i ddefnyddio geirfa wahanol fel ansoddeiriau ac idiomau yn aml yn ei waith. Bydd hyn yn datblygu gwaith ysgrifenedig y disgybl yn gyfryngau addas. Enghraifft arall o hyn yw defnydd o eiriadur, bydd defnydd o eiriadur yn gwella ei eirfa, gwaith ac yn hybu sgiliau darllen fel cip darllen.

Gall y disgybl hefyd cael cymorth a chefnogaeth o gynorthwyyr y dosbarth gan gynllunio a darparu'r cynorthwyydd i weithio efo grŵp penodol yn ystod y wers. Trwy wneud hyn gall ceisio sicrhau llwyddiant, chynnal hunanhyder a hunan-barch. Nodwyd Blatchford et al (2004) bod defnydd o gynorthwyyr yn cael effaith cadarnhaol ar: ganolbwyntio, cymorth am ddysgu, effeithlonrwydd addysgu, rheolaeth dosbarth ac effaith ar ganlyniadau dysgu disgyblion.

Wrth baratoi i ysgrifennu bywgraffiad roeddwn ar lafar wedi gosod targed i'r disgybl o dreiglo'n feddal ar ôl arddodiaid sef, sgil datblygon yn wers flaenorol. Roedd cymorth ar gael o waith cyflawnwyd yn wers flaenorol. Felly, mae atgoffa ac amlygu sgiliau a gwybodaeth sydd wedi cael eu haddysgu yn barod yn hollol pwysig wrth baratoi i ysgrifennu

Ar hyn o bryd mae ei lawysgrifen yn ddarllenadwy ac yn un o ddisgyblion y dosbarth sy'n defnyddio pen i ysgrifennu. Ond, mae dal angen datblygu a gwella ei lawysgrifen a ffurfio llythrennau mor daclus â phosib. Mae pob aelod o'r dosbarth yn berchen llyfr llawysgrifen ac yn gallu mynd ati i ymarfer yn aml yn ystod dydd ysgol.

Ar dywydd datblygu gallu rhifedd y disgybl ffocws yr meysydd amlygwyd oedd:

Bod angen dysgu geirfa priodol mathemategol. Amlygodd hyn wrth gael esboniad am sut daeth i gasgliad am ateb. Roedd yn defnyddio 'dim' yn lle defnyddio 'sero'. Mae hyn yn gallu ei ddatblygu gan fodelu ei ddefnydd yn ystod y gwrs a'u defnyddio yn trafodaethau i sicrhau bod disgyblion yn clywed y geiriau yn aml.

Ardal arall sydd angen datblygu yw'r gallu i ddefnyddio sgiliau pen i ddatrys heriau. Fel soniwyd yn gynharach mae'r disgybl yn gallu galw tabl 2,3,4,5 a 10 heb lawer o drafferth. Ond, efo heriau heriol mae'n gweld yn anodd ei datrys. Mae'r disgybl yn gallu esbonio'r proses o gyrraedd ateb gan ddefnyddio esiamplau ysgrifenedig ond, yn cael trafferth yn defnyddio sgiliau pen yn unig.

Gan ddefnyddio ymyriad CLIC sydd wedi ei gynyrchu gan <https://www.bigmaths.com/> i ddatblygu gallu'r disgybl a'r dosbarth i ddatrys cwestiynau geiriol ac ardaloedd eraill o fewn y pwnc. Defnyddiwyd yr ymyriad i wneud asesiad ffurfiannol a chrynodol gall eu defnyddio i amlygu bylchau mewn gwybodaeth. Gall cynnydd ei wneud yn sgiliau mathemateg pen. Hefyd, gall yr ymyriad yma ei ddefnyddio i roi mathemateg mewn i gyd-destun broblemau pob dydd. Does dim rhaid i sesiwn CLIC parahau am lawer o amser felly, gall cael ei wneud ar ddechrau gwers, ar ôl amser cinio neu cyn i ddisgyblion mynd adref.

Mae'r disgybl wedi cael y targed o osod rhif ym mhob bocs i sicrhau gwaith taclus gan obeithio bod symiau a gwybodaeth wahanol yn fwy gweledol. Felly, mae'n gwneud synnwyr clir i'r disgybl ac athrawon/cynorthwyr. Mae'r disgybl wedi dechrau gwneud gwelliant gan roi rhifau yn gywir yn ei lyfr. **(Atodiad 5 - Gwaith Mathemateg)**. Mae pwysigrwydd hyn wedi trafod efo'r disgybl ac mae'n gweld pam mae angen gwneud y sgil syml hyn.

Datganwyd yn gynharach yn yr ymchwil bod y disgybl yn mwynhau gweithgareddau ymarferol ac yn dysgu yn fwy effeithiol wrth ei wneud. Felly, gan gynllunio gweithgareddau ymarferol yn fwy aml, yn sicr yn bwnc mathemateg a phan maent yn addas yn wersi iaith neu thema, byddaf yn dal diddordeb y disgybl yn syth ac yn cael iddo i weithio yn ffurf ginesthetig. Arsylwais ddiddordeb cryf gan y disgybl ar ôl cyflwyno her o ddatrys cod coll. Roedd rhaid i'r disgyblion mynd ati i ddefnyddio strategaethau adio a thynnu i wirio eu gwaith a darganfod llythrennau coll. Datganwyd Protheroe (2007) o fewn dosbarth effeithiol mathemateg bod angen dylanwadu ar ddysgu gan osod heriau a chwestiynau diddorol. Gan fy mod am ddatblygu ei allu i ganolbwyntio bydd y ffurf yma o addysgu a dysgu yn effeithiol ac yn cyd-fynd efo cryfderau'r disgybl.

I ddechrau herio'r disgybl i wneud cynnydd a'i wthio i gyrraedd lefelau newydd. Bydd defnydd o osod heriau a defnyddio rhifau dros 1000 a rhifau efo llefydd degol yn ehangu ei wybodaeth a dealltwriaeth. Ond, rhaid sicrhau nad oes effaith negyddol ar ei hunan hyder gan nad yw'n llwyddo tro cyntaf.

Wrth ddefnyddio teclunau digidol yn y dosbarth welais bod y disgyblion I gyd yn cael trafferthion yn mewngofnodi a defnyddio'r teclunau yn annibynnol. Felly, wrth cael sesiwn mireinio sgiliau a defnyddio y 'criw digidol' byddwn fel dosbarth yn gallu datblygu ein gallu a dealltwriaeth. Yn aml gwelais bod angen i ddisgyblion ymarfer elfennau fel: mewngofnodi, allgofnodi, arbed gwaith a theipio. Gwelais hefyd nad oedd disgyblion yn deall terminoleg digidol felly, mae angen modelu'r terminoleg yn aml i sicrhau eu bod yn clywed, eu deall ac yn y pendraw yn defnyddio'r terminoleg yma yn gywir.

Ar ôl cyfnod o amser bydd angen hybu'r disgybl i weithio yn annibynnol. Ar ôl cyfnod o osod scaffaldi yn llwyddiannus bydd angen yna, dechrau tynnu yn ôl yn raddol gan sicrhau bod y disgybl yn teimlo'n cyfforddus, hapus a dal yn gallu cyflawni gweithgareddau i'r lefel gorau posib. Wrth l'r disgybl gweithio yn annibynnol bydd yn ei alluogi i gyrraedd lefelau uwch yn ei waith heb gymorth o athrawon neu cynorthwyyr

Rwyf wedi cynnal trafodaeth o ddefnyddio telunau fel 'Speakr' i dracio iechyd a lles y disgybl ffocws ac disgyblion yr ysgol efo athrawes y dosbarth. Mae 'Speakr' yn galluogi disgyblion i groyw eu teimladau tra yn ysgol trwy declyn technoleg. Mae'n felly, yn rhoi'r gallu i athrawon neu staff addas i ddelio a ddatrys y problem yn syth i sicrhau bod y disgybl yn cael cyfle i ddysgu ac i deimlo yn diogel. Gan ddefnyddio yr 'app' yma gallaf penodi amser i arddangos eu teimladau gan ddefnyddio teclun. Sydd hefyd, yn fynd i ddatblygu elfennau o'r cymhwysedd digidol.

Yn ystod fy mhrofiad o addysgu gwelais fod defnydd o fachyn yn ystod cyflwyniad y wers yn dal diddordeb y disgyblion ac yn cymhelli i gyflawni'r gweithgaredd. Roedd y disgyblion i weld yn awyddus i ddatrys y cod coll yn ystod gwrs mathemateg i ddarganfod yr eitem sydd wedi ei chuddio. Roedd y grwpiau gallu gwahanol wedi derbyn cod gwahanol roedd rhaid cyd-weithio i ddatrys yr her. O'r profiad yma byddaf rwyf wedi adfyfrio bod defnydd o fachyn yn cael effaith cadarnhaol ar ddisgyblion.

Casgliadau

Casgwlyd gwybodaeth ac arsylwyd ar y disgybl ffocws am 17 diwrnod yn unig oherwydd digwyddiadau yn ystod y tymor, felly nad oeddwn yn teimlo bod cyfle digonol

i weld gwir cynnydd a gallu yr disgybl. Credaf bod yn cymryd amser i ddod i wir gwybod disgybl yn iawn, amser nad oedd ar gael am yr ymchwiliad yma. Hefyd, credaf yn gryf i gael llun cyflawn o ddisgbl mae angen arsylwi arnynt yn sefyllfaoedd tu allan i furiau'r ysgol, yn chwarae, sgwrsio a threulio amser â ffrindiau. Ceisiwyd arsylwi'r disgybl yn ystod amser chwarae i'w arsylwi yn sefyllfa di-pwysau ac yn chwarae yn naturiol. Y tro nesaf, byddaf yn cynllunio yn dilyn, beth a phryd byddaf yn arsylwi ar ddisgybl. Yn paratoi defnyddiau i gofnodi sylwadau a ddata i'w defnyddio.

Mae'r disgybl yn gweithio o fewn y lefel sy'n ddisgwyliedig am ei oedran. Mae'r targedau wedi eu gosod i fireinio ei sgiliau a sicrhau sylfaen i ddatblygu ymhellach trwy gydol ei amser yn addysg. Mae targedau i gyrraedd o ar draws y cwricwlwm byddent yn ceisio datblygu nes diwedd flwyddyn tri.

Gwelwyd pwysigrwydd yn darparu scaffaldio trwy: cynorthwyyr, meini prawf llwyddiant neu adborth yn ystod gwersi i sicrhau llwyddiant. Adfyfiriwyd eu bod yn cael effaith cadarnhaol ar ddealltwriaeth ac hunanhyder y disgybl felly, yn pwysig i gynllunio a ddarparu scaffaldio yn ystod gwersi gwahanol.

Cafodd pwysigrwydd defnyddio a chynllunio destun sydd o ddiddordeb i ddisgyblion eu hamlygu gan welwyd bod disgyblion yn fwynhau y gwersi, bod eu canolbwytiaid yn cadw trwy gydol y wers ac yn cynnal trafodaethau eiddfed rhwng cyd-disgyblion ac athrawon gan fod gwybodaeth blaenorol ganddynt.

Cafodd pwysigrwydd gallu cymhwysedd digidol eu hamlygu gan ddefnyddio gwahanol declynnau yn aml bydd y disgyblion yn dod yn gyfarwydd â'u defnyddio ac felly yn datblygu eu gallu. Bydd hyn yn gosod y sylfaen am ddilyniant o wersi a bod o gymorth wrth ddatblygu gan ystyried y ddogfen cymhwysedd digidol.

Wrth osod camau nesaf am y disgybl rwyf wedi ceisio sicrhau eu bod yn dilyn acronym 'S.M.A.R.T.' i sicrhau bod y targedau yn gyraeddadwy ac nad ydynt yn afrealistig.

Mae hunanhyder a hunan barch yn hollol bwysig wrth ystyried cymhelliant i lwyddo. Mae rhaid sicrhau bod y disgybl yn feddylfryd cadarnhaol gan sicrhau iechyd a lles y disgybl.

Atodiadau

Atodiad 1 – caniatad

Ynglŷn ag: Aseiniad Myfyrwyr TAR Cynradd: caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer yr aseiniad 'Datblyglad Ysgol a Chynnydd Disgyblion', Haf 2018.

Annwyl fentor dosbarth / uwch fentor ,

Ar gyfer y modwl prifysgol a enwir uchod, gofynnir i hyfforddeion i nodi un dysgwr sydd yn y dosbarth lle maent wedi cael eu lleoli a, dros y cyfnod Profiad Addysgu Proffesiynol, ymchwilio i'w ddysgu yn fanwl. Gallai'r dystiolaeth sydd angen ei chasglu arnynt gynnwys:

- arsylwi;
- gofyn i'r dysgwr nodi manau/ pethau sy'n ei helpu ef / hi i ddysgu;
- trafod gyda'r disgybl a/ neu'r athro'r hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu a sut maent yn teimlo am ddysgu;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywbeth am gynnydd a datblygiad y dysgwr.

Gofynnir iddynt ganolbwyntio ar wybodaeth, agwedd a sgiliau mewn iaith, mathemateg, lles, yn ogystal ag o leiaf dau faes arall o'r cwricwlwm er mwyn cael darlun cyfannol o'r plentyn. Yna, gwnânt awgrymu'r camau nesaf ar gyfer y disgybl a dangos sut caiff y rhain eu cyflawni. Disgwylir i hyfforddeion fod yn annibynnol, pa bryd bynnag mae'n bosibl, wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, ac maent wedi cael canllawiau moesegol i'w dilyn (er ein bod ni'n rhagweld caiff y gwaith uchod ei wneud yn unol ag arfer arferol yr ystafell ddosbarth). Gofynnwyd i'r hyfforddeion i beidio â datgelu enwau'r dysgwr na'r ysgol yn eu haseiniadau. Gofynnir i'r myfyrwyr i:

1. Ofyn am ganiatâd ar gyfer gwneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â'r athro dosbarth a'r dysgwr).
2. Ddarparu cadarnhad bod y gwaith archwilio wedi digwydd.

Felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cadarnhau drwy lofnodi isod bod y myfyriwr wedi gofyn am ganiatâd a bod y tasgau wedi cael eu cynnal.

ENW'R MYFYRIWR/ MYFYRWRAIG (PRINTIWCN OS GWELWCN YN DDA):

_____ Rhys Phillips

ENW'R YSGOL (PRINTIWCN OS GWELWCN YN DDA):



ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (LL OFNODWCH OS GWELWCH YN DDA):

S. E. Evans

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, yna cysylltwch ag : Arweinydd y Rhaglen Helen Lewis :
h.e.lewis@uwtsd.ac.uk


Diolch yn fawr o flaen llaw.

Helen Lewis

Helen Lewis, 5.3.18

DYUD CYNWYS COPÍ WEDI'I LOFNODI YN ATODIAD YR ASFINIAD

Atodiad 2 – llais y disgybl – Fi, ti a Chymru - bywgraffiad



Atodiad 3 – Bywgraffiad Brett Johns

Dydd Iau Mai 24 2018

Nod y wers: Ysgifennu bywgraffiad am Brett Johns

I ddefnyddio:

Ansoddeiriau

Idiomau

Ffeithiau defnyddiol

Atalnodi

Priflythrennau

Amrywio dechrau brawddegau

Mr. Phillips

Hunan
asesu

✓

X

✓

X

✓

✓

✓

✓

✓

✓

✓

✓

Cariad Brett Johns i eni ar
y 1992 21 o chweffor Meis
y sir dinas yn bwtale ✓

mae en iau yn clychir cord.
pantacddail a sedd yn 26
mwydd wed ✓

Mae'n ract mma Sydd yn sefali
am mixed martial arts a ufa
fighting ✓ ymladd

Mae Brett Johns iendi
Enill 15 a colli 1 a dechra
Ufa pan oedd yn 16 ✓

Ansoddair

• Mae Brett Johns yn katritog ✓

Idiom

• Mae Brett Johns yn cuso ei on
glas ✓

Atodiad 4 – taflen cymorth

Bywgraffiad
Brett Johns

Dechrau brawddegau:

Cafodd
Ganwyd
Enillodd
Mae
Roedd
Ceisiodd
Ymunodd
Dechreuodd



Ffeithiau:

Geni: 21ain o Chwefror, 1992.
Oedran: 26 blwydd oed
Pentref: Pontarddulais

Bywyd cynnar:
Athletwr milwrol celf cymysg
Judo - 4 blwydd oed
Jiu-jitsu Brasil - 16 blwydd oed

Digwyddiadau pwysig:
Ennill:15
Colli: 1
Arwyddo i UFC yn 2016.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Llysenw: The Pikey

Ansoddeiriau:

dewr
balch
cryf
cyflym
talentog
ifanc
cryf
hyderus
egniol
hyderus
ffyrnig
cyfareddol
brwdfrydig
anferth
arwr
Anhygoel
diymhongar

Idiomau:

Gwen o glust i glust
Rhoi'r ffidl yn y tô
Ceisio ei orau glas



Atodiad 5 – Gwaith Mathemateg

$$1.45 + 42 =$$

$$\begin{array}{l} 40 + 40 = 80 \\ 5 + 2 = 7 \\ 80 + 7 = 87 \end{array}$$

✓ 72 = 7 + 0 + 8
5 + 2 = 7
2 = 7

$2.120 + 220$

$$\begin{array}{r} 100 + 20 + 30 = 300 \\ 20 + 20 + 40 = 340 \end{array}$$

$$\begin{array}{r} 30 \\ + 20 \\ + 40 \\ + 10 \\ \hline 100 \end{array}$$

$$3.12 + 5.6 =$$

$$\begin{array}{r} 29 \\ 09 \\ \hline 29 \end{array}$$

89

44-77

$$4 - 4 = -4$$

$$C - 4 = 7$$

$$5149 + 49 =$$

$1 = 26$
 $26 = 28$
 $28 = 29$
 $29 = 30$
 $30 = 31$
 $31 = 32$
 $32 = 33$
 $33 = 34$
 $34 = 35$
 $35 = 36$
 $36 = 37$
 $37 = 38$
 $38 = 39$
 $39 = 40$
 $40 = 41$
 $41 = 42$
 $42 = 43$
 $43 = 44$
 $44 = 45$
 $45 = 46$
 $46 = 47$
 $47 = 48$
 $48 = 49$
 $49 = 50$
 $50 = 51$
 $51 = 52$
 $52 = 53$
 $53 = 54$
 $54 = 55$
 $55 = 56$
 $56 = 57$
 $57 = 58$
 $58 = 59$
 $59 = 60$
 $60 = 61$
 $61 = 62$
 $62 = 63$
 $63 = 64$
 $64 = 65$
 $65 = 66$
 $66 = 67$
 $67 = 68$
 $68 = 69$
 $69 = 70$
 $70 = 71$
 $71 = 72$
 $72 = 73$
 $73 = 74$
 $74 = 75$
 $75 = 76$
 $76 = 77$
 $77 = 78$
 $78 = 79$
 $79 = 80$
 $80 = 81$
 $81 = 82$
 $82 = 83$
 $83 = 84$
 $84 = 85$
 $85 = 86$
 $86 = 87$
 $87 = 88$
 $88 = 89$
 $89 = 90$
 $90 = 91$
 $91 = 92$
 $92 = 93$
 $93 = 94$
 $94 = 95$
 $95 = 96$
 $96 = 97$
 $97 = 98$
 $98 = 99$
 $99 = 100$

$\begin{array}{r} 8 \\ 9 \\ =6 \\ =8 \\ 89+ \\ +001 \end{array}$

$\begin{array}{r} 8 \\ 9 \\ = \\ 6 \\ 8 \\ + \\ - \\ 0 \\ 0 \\ 1 \end{array}$

$\begin{array}{r} 8 \\ 9 \\ = \\ 6 \\ 8 \\ + \\ - \\ 0 \\ 0 \\ 1 \end{array}$

6. 430 - 60 =

$$\begin{array}{r} 40 \\ - 6 \\ \hline 34 \end{array}$$

$\begin{array}{r} 0 \\ 0 \\ 0 \\ 0 \\ 0 \end{array}$

7.

$$\begin{array}{r} 34 + 43 = \\ 30 + 40 = 70 \\ 4 + 3 = 7 \\ 70 + 7 = 77 \end{array}$$

4 + 3 = 7
70 + 7 = 77 ✓

$$= 0.21 - 0.0012$$

0 9 1 0 0 8 1 0 0

$$08-1=08-0$$
$$08-1=08-0$$

$$08-1=08-0$$
$$08-1=08-0$$

02010010

0000-1000-0000

0000-1000-0000

0000-1000-0000

Cyfeirnodau

Abrahams, I a Millar, R. (2008). Does practical work really work? A study of the effectiveness of practical work as a teaching and learning method in school science. *International Journal of Science Education*. 30 (14) tud.1945-1969.

APADGOS. (2008). Arsylwi ar Blant, Caerdydd: APADGOS. [Ar lein]. Ar gael: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140828-observing-children-cy.pdf>

BERA (2011). Ethical Guidelines for Educational Research. [Ar-lein]. Ar gael: <https://www.bera.ac.uk/wp-content/uploads/2014/02/BERA-Ethical-Guidelines-2011.pdf?noredirect=1>

Blatchford, P., Russell, A., Bassett, P., Brown, P., & Martin, C. (2004). The Role Effects of Teaching Assistants in English Primary Schools (years 4 to 6) 2000-2003: Results from the Class Size and Pupil-Adult Ratios (CSPAR) KS2 Project. *Department for Education and Skills (Research Report)*. [Ar lein]. Ar gael: <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130402123313/https://www.education.gov.uk/publications/eOrderingDownload/RR605.pdf> [Mynediad ar 29ain o Fai, 2018].

Bunker, L. (1991). The Role of Play and Motor Skill Development in Building Children's Self-Confidence and Self-Esteem. *The Elementary School Journal*. 91 (5),

Cowie, H., Huser, C., Myers, C. A. (2014). The Use of Participatory Methods in Researching the Experiences of Children and Young People. *Croatian Journal of Education*. 16. Tud.51-66.

Cremin, H. (2007). Peer mediation. Maidenhead: Open University Press.

Doran, G.T. (1981). There's a S.M.A.R.T. way to write management's goals and objectives. *Management Review (AMA FORUM)* 70 (11): tud.35–36.

Estyn (2016). Adroddiad ar ysgol. [ar-lein] <https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Ysgol%20Gynradd%20Gymraeg%20Bryniago%20eng.pdf> [Mynediad ar 15eg o Fai, 2018].

Lockwood, P., Jordan, C. H., & Kunda, Z. (2002). Motivation by positive or negative role models: Regulatory focus determines who will best inspire us. *Journal of Personality and Social Psychology*, 83(4), tud. 854-864

Moss, P. (2006) Listening to Young Children: Beyond Rights to Ethics in Let's Talk about Listening to Children Learning and Teaching Scotland, *Let's Talk about Listening to Children: Towards a Shared Understanding for Early Years Education in Scotland*, Vol 2, Edinburgh: Learning and Teaching Scotland. Tud. 1-72

Nottingham, J (2013). *Encouraging Learning: How you can help children learn*. London: Routledge. tud. 11.

Protheroe, N. (2007). "What Does Good Math Instruction Look Like?" *Principal*. 7(1), tud. 51-54

Ridgers, N., Carter, L., Stratton, G., McKenzie, T. (2011). Examining children's physical activity and play behaviours during school playtime over time. *Health Education Research*. 26 (4). Tud. 585-595.

Siencyn, S. W. (gol) (2008). Y Plentyn Bach: Cyflwyniad i Astudiaethau Plentyndod Cynnar. Caerfyrddin: Coleg y Drindod. t. 118.